

Ymateb Cymdeithas yr Iaith i Ymgynghoriad i Doriadau gan Gyngor Sir Gâr

Mae Cymdeithas yr Iaith yn gwrthwynebu torri ar wasanaethau ar egwyddor, gan ei fod yn ganlyniad i hapfasnachu'r blynyddoedd a fu, ac yn gyffredinol yn cosbi ac yn amddifadu'r mwyaf anghenus a'r rhai nad sydd ar fai.

O edrych yn benodol ar rai toriadau, rydyn ni'n arbennig o bryderus y byddai torri ar gyllideb i'r Gymraeg. Mae'n gwbl groes i'r hyn mae argymhellion mae'r cyngor yn eu rhoi mewn lle yn dilyn adroddiad Gweithgor y Gymraeg, ac yn dal gyda'r arfer o osod y Gymraeg ar wahân yn hytrach na bod y Gymraeg yn rhan ganolog a naturiol o waith y cyngor.

Yr ateb i hyn yw i'r cyngor symud i weithio drwy'r Gymraeg. Ar hyn o bryd mae cyfieithu - yn gyfieithu ar y pryd neu ddogfennau ar gyfer gwaith yn wariant ar y Gymraeg - ac yn gostus. O newid yn raddol i weithio drwy'r Gymraeg gallai'r cyngor gyfieithu i'r Saesneg yn ôl yr angen, er tegwch i staff di-Gymraeg.

Ar faterion penodol eraill nid yw'n glir a fydd swyddi'n cael eu colli o gau cyfleusterau hamdden a'r swyddfa arian parod Llandeilo na beth fyddai effaith ailstrwythuro mewn gwahanol adrannau ar staff.

Hefyd gallai trosglwyddo gwasanaethau gofal 'hyd braich' olygu nad yw gwasanaeth ar gael yn Gymraeg bellach – byddai'n ddibynol ar fudiad gwirfoddol neu gwmni sy'n gyfrifol. Er y gallai'r cyngor annog cwmnïau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg ni fyddai sicrwydd o hynny.

Mae rhai o'r toriadau yn benodol fydd yn effeithio ar bobl sydd ddim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant; y gwasanaeth lleferydd ac iaith mewn ysgolion uwchradd; y gyllid ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol a darpariaeth pryd ar glud. Byddai torri ar gyllideb neu golli'r gwasanaethau hyn yn effeithio ar y mwyaf bregus ac yn golygu nad oes sicrwydd y byddai pobl yn gallu parhau i fyw ble maen nhw nawr.

Mae'r un peth yn wir am yr argymhellion i dorri ar y gwasanaeth llyfrgelloedd a'r posibilrwydd o gau rhai cyfleusterau hamdden.

Rydyn ni eisoes yn gweld nifer uchel o bobl ifanc yn gadael ein cymunedau, a hynny oedd un o'r prif reswm am y dirywiad a welwyd yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn ôl canlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf. Does dim disgwyl i bobl eisiau aros yn eu hardal leol os nad oes gwasanaethau a darpariaeth cymdeithasol ar eu cyfer. Er nad oes disgwyl i'r cyngor eu darparu'n gyfan gwbl, bydd torri ar wasanaethau yn golygu ei bod yn llai tebygol y bydd pobl eisiau ac yn gallu aros neu ddod nôl i fyw i'r ardal.

Rydyn ni'n derbyn bod lleihad yng nghyllideb y cyngor, mae hynny'n wir i gynghorau ar draws Cymru felly rydyn ni'n gofyn i gynghorau edrych yn greadigol ar y ffyrdd y gallan nhw arbed arian a rhoi blaenoriaeth i anghenion cymunedau wrth gynllunio.

Rhanbarth Caerfyrddin, Cymdeithas yr Iaith
Rhagfyr 2014